



Llais Y Derwent



Rhif 59 Mawrth/ Ebrill 2024

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg a Chymry alltud Canolbarth Lloegr

25c



Croeso i rifyn 59 o *Lais y Derwent*. Mae'r gwanwyn ar ei ffordd, y Lili-Wen-Fach wedi blodeuo yn barod a'r Cennin-Pedr yn tyfu yn braf. Siŵr o fod mi fydd pawb yn hapus i weld y gaeaf cilio a'r tywydd yn gwella!

Un peth braf iawn ar hyn o bryd yw gweld nifer o grŵpiau Sgwrs Cymraeg newydd yn dechrau mewn rhannau gwahanol o Loegr. Yn Boroughbridge, Swydd Efrog mae John Moss wedi dechrau grŵp bywiog iawn tra draw yn ardal East Grinstead a Crawley mae Tudur Williams wedi dechrau grŵp sgwrs newydd yno hefyd. Mae nifer aelodau o grŵp Facebook Menter Iaith Lloegr yn dal i dyfu ac wedi cyrraedd dros 2300 erbyn hyn, pwy a wŷr efallai cawn ni gyrraedd 3000 o aelodau erbyn diwedd y flwyddyn. Braf hefyd yw gweld grŵpiau gwahanol yn hysbysebu eu cyfarfodydd sgwrs ym Mryste, Birmingham, Caerfaddon, Manceinion i enwi dim ond rhai. Yn amlwg mae nifer o ddysgwyr yr hen iaith yn Lloegr a thu hwnt yn dal i dyfu.

Yn y rhifyn yma mae'nna eitemau gan Greg Pearce am Ynys Wair, gan Martin Coleman am 'Fy arwydd o'r Gwanwyn', gan Howell Price am eiriau Cymraeg a

hefyd adroddiad gan Jean Brandwood am grŵp sgwrs Manceinion ac un arall gan Anne Spooner am Glwb Cymraeg Preston. Daliwch ati bawb, yn y pen draw dyn ni'n gallu Cymreigio Lloegr! Os oes stori am eich grŵp, croeso i chi anfon i Lais y Derwent ar gyfer y rhifyn nesa.

Does dim rhaid dweud fod Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf o Fawrth ond mae nifer o gymdeithas a grŵpiau wedi hysbsebu digwyddiadau ar gyfer Mis Mawrth a mis Ebrill ar grŵp FB Menter Iaith Lloegr. Mae'r rheiny yn cynnwys Cinio Dydd Gŵyl Dewi Cymdeithas Cambrian Sheffield, Cyngerdd Côr y Brythoniaid sy'n cael ei drefnu gan Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi, Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi wedi'i drefnu gan Gôr Cymraeg Coventry.

Dyma amser gorau'r flwyddyn i drïo codi ymwybyddiaeth / delwedd o'ch grŵp chi yn eich ardal leol. Mae papurau lleol a radio lleol wastad yn agor i glywed newyddion am grŵpiau cymdeithasol megis Cymdeithas Cymraeg neu grŵp sgwrs Cymraeg lleol, felly cysylltwch â nhw. Dros y blynyddoedd pan oedd Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby yn trefnu'r Ysgol Undydd Cymraeg Derby yr oedden ni yn aml yn siarad yn fyw ar Radio Derby gan gynnwys rhoi gwers Cymraeg i'r cyflwynwyr. Felly peidiwch fod yn swil, ewch amdani i ledaenu'r gair am yr iaith Gymraeg yn eich cymuned chi. Mae darpar ddysgwyr a Chymry alltud ym mhobman! Hir oes i'r Gymraeg a dydd Gŵyl Dewi hapus i chi i gyd!

Y golygydd



Trechu Niwl Ynys Wair

Yn aml iawn, mae niwl yng nghanol Môr Hafren. Mae'n amlwg bod presenoldeb ynys greigiog dair milltir o hyd yn berygl mawr i longau, yn enwedig o ystyried bod ceryntau mawr ger yr ynys yn ogystal â'r niwl. Does dim syndod bod hanes hir o longddrylliadau o'i chwmpas. Does dim cofnod pendant o ddrylliadau cyn yr ail ganrif ar bymtheg ac mae cofnodion yn brin tan y bedwaredd ganrif o bymtheg – nid dim ond oherwydd arwahanrwydd yr ynys, ond hefyd achos nid oedd budd i drigolion yr ynys adrodd drylliadau. Gallen nhw ddefnyddio'r pren, glo a nwyddau eraill a gyrhaeddodd eu glannau.

Goleudai ydy'r datrysiad arferol i longddrylliadau. Tŷ'r Drindod ydy enw'r awdurdod yn Lloegr a Chymru sydd â chyfrifoldeb dros oleudai. Mae cofnodion o drafodaethau dros adeiladu goleudy ar Ynys Wair mor gynnar â 1750 ond efallai gwrthwynebwyd y cynllun gan berchnogion yr ynys (oedd, wedi'r cyfan, yn elwa ar ddrylliadau), ac ni ddechreuodd Tŷ'r Drindod adeiladu goleudy tan 1819. Agorwyd y goleudy ym 1820. Mae'r goleudy yn draddodiadol ei ddyluniad efo tŵr crwn sy'n defnyddio ithfaen wedi'i chwarelu ar yr ynys. Mae o'n sefyll ar fan uchaf yr ynys tua chant a hanner metr uwchben

lefel y môr er mwyn cael ei weld o bob ochr yr ynys, sydd yn golygu mai fo ydy'r goleudy uchaf (ond nid y talaf) ym Mhrydain.

Cynyddodd masnach forwrol yn yr 1800au ond cynyddodd y nifer o longddrylliadau o gwmpas Ynys Wair hefyd, a daeth yn amlwg nad oedd y goleudy yn un arbennig o lwyddiannus. Oherwydd ei uchder, gorchuddiwyd y goleudy gan niwl yn aml iawn. Yn gyntaf, penderfynodd Tŷ'r Drindod adeiladu ystafell lusern ar waelod y tŵr gan obeithio trechu'r niwl. Ymgynghorwyd â'r gwyddonydd Michael Faraday ar sut i gryfhau'r golau. Gosodwyd lens newydd ei ddyluniad, ond parhaodd y llongddrylliadau.

Y syniad nesa yn 1861 oedd adeiladu batri niwl, sef gorsaf efo dau ganon 18 pwys. Adeiladwyd dau



fwthyn hanner ffordd i lawr clogwyn ar ochr orllewinol yr ynys, ac roedd dau 'daniwr' yn byw ynddyn nhw efo'u teuluoedd. Yn ystod tywydd niwlog (oedd yn gallu para am ddiwrnodau), basen nhw'n tanio gwn bob deg munud i rybuddio llongau. Mae eu cofnodion yn dangos bod nhw wedi tanio'r gynnu 788 o weithiau yn eu blwyddyn gyntaf o ddefnydd. Erbyn 1871 roedd 65 o drigolion ar yr ynys, gan gynnwys 29 o blant. Roedd 28 o'r trigolion hyn yn gweithio i Dŷ'r

Drindod, naill ai yn y goleudy neu yn y batri niwl.

Doedd dim diwedd i'r llongdrylliadau, ond rhaid bod y goleudy a'r batri niwl wedi lleihau eu nifer rhywfaint. Fodd bynnag, doedd Tŷ'r Drindod ddim yn fodlon. Ym 1897, penderfynon nhw adeiladu dau oleudy newydd ar lefel is, un ar ben gogleddol yr ynys ac un arall ar ben deheuol, ill dau efo corn niwl. Ar yr un pryd, caewyd y batri niwl a'r goleudy gwreiddiol (sydd bellach wedi'i enwi yn 'Old Light').

Doedd hyd yn oed y goleudai newydd ddim atal llong yr HMS Montagu, llong ryfel y Llynges Frenhinol, rhag ymddryllio ar greigiau Ynys Wair – testun embaras mawr i'r Llynges ar y pryd. Ar 30ain Mai 1906, cafodd ceidwaid goleudy'r gogledd eu syfrdanu gan ymddangosiad dau swyddog y Llynges wrth eu drws – swyddogion oedd yn gyndyn iawn derbyn nad oedden nhw o flaen goleudy Trwyn Hartland ar y tir mawr!

Mae'r ddau oleudy newydd yn dal i weithio hyd heddiw, ac mae'r hen oleudy a'r batri niwl yn dal i sefyll. Gallwch chi ddringo tŵr yr hen oleudy neu aros ym mwthyn ceidwad y goleudy drws nesa. Er bod hen fythynnod y batri niwl bellach yn adfeilion, mae'r gynnuau niwl i'w gweld yn wynebu'r môr o hyd. Wrth sefyll ar ymyl y clogwyn wrth ochr y gynnuau ac edrych allan dros donnau ffyrnig y môr, mae'n werth stopio i feddwl am faint o bobl sydd wedi colli eu bywydau yn y dyfroedd peryglus o'ch blaen.

(Mae'r erthygl hon yn ddilyniant i un a ysgrifennais yn rhifyn diwethaf Llais y Derwent. Os nad ydych chi wedi'i ddarllen, cewch chi yno gyflwyniad i Ynys Wair a'i hanes.)

Greg Pearce

Stone, Swydd Stafford

Hanes Teulu Tudur Williams

Laura William, yn cael ei adnabod, Llinos Moelwyn yn Blaenau Ffestiniog, oedd fy nain ar ochr fy nhad. Hi oedd a'r cyfrifoldeb am faethu ei theulu, mam a thad tair chwaer a dau frawd, yn ystod y streic fawr yn Chwarelu Lord Penrhyn gyda'i chanu swynol. Enillydd yr Eisteddfod Genedlaethol, roedd yna lawer o wahoddiadau i ganu yng nghyngherddau yn ystod y Diwygiad Crefyddol. Cafodd cyfle i fod yn gantores yn y West End ond nid dyna oedd yn dymuno. Priododd Tudur, fy nhaid oedd yn pregethu yn amdeithiol. Fel dwi'n deall roedd wedi pregethu yn y capel yn Nant Gwrtheyrn. Ond roedd yna densiynau i ddilyn llysiaint oddiwrth captain llongau o Lerpwl, le buodd yn canu, a gwrthwynebiad tua fy nhaid. Symudodd y ddau i'r De i edrych am waith mwy sefydlog lle gafodd fy nhad ei eni. Cafodd taid damwain erchyll ar ôl symud i Lwynypia i weithio yn y pwll glo a dyna roi terfyn a'r gwaith trwm iddo. Dim iawndal yr adeg hynny. Aethant yn ôl i'r Gogledd lle cafodd swydd yn edrych ar ôl y Sailor's Home yng Nghaernarfon.

Ar ôl ei addysg yng Nghaernarfon County aeth fy nhad i weithio gyda'r Gas Light and Co yn Llundain ble cyfarfod â fy mam, Gwyneth, yng nghapel Charing Cross. Oedd Mam yn dod o'r De, Cwm Tawe, ac roedd yn nyrsio yn y Royal Free. Pan roedd y Blitz yn dechrau a hi'n feichiog ymunodd fy nhad gyda'r Royal Engineers a aeth fy Mam i fyw gyda'i theulu yn yr Alltwen a chefais fy ngeni yng Nghastell Nedd. A dyna lle buom ni nes fod fy nhad oedd yn gapten yn yr Royal Engineer's erbyn hyn, gadael y fyddin yn 1947.

Roedd yr amser dreuiliodd yn Burma wedi cael effaeth andywiol arno a method gorffwyso am fyw na flwyddyn mewn unrhyw le. Ond story arall yw hwna.

Tudur Williams
Crawley

Eisiau ymarfer dy Gymraeg?
Want to practise your Welsh?

Ymunwch â ni yn ein / Join us in our

Sesiwn Sgwrs

Croeso cynnes i bawb / A warm welcome to everyone



Y cyntaf a'r trydydd dydd Gwener o bob mis
First and third Friday of every month



2:00pm



Llyfrgell Treffynnon / *Holywell Library*



Cysylltwch / *Contact: 07864 149078*



TYFU
CYMR AEG
grow your welsh

www.tyfu-Cymraeg.co.uk



CYMDEITHAS
CYMR Y LERPWL

Bu cymdeithasau diwylliannol Cymraeg yn Lerpwl ers diwedd y pedwerydd ganrif a bymtheg, a'n braint yw cael dyfalbarhau gyda'r traddodiad. Mae'r aelodau yn hannu o bob rhan o Gymru ac yn cyfarfod ar nos Fawrth yng Nghanolfan Cymry Lerpwl sydd yn estyniad o Gapel Bethel, Heathfield Road. Mae gyferbyn Penny Lane yn Allerton.

Darllenwch ein rhaglen am dymor 2024 sydd yn cynnwys nosweithiau amrywiol eu naws sef darlithoedd, nosweithiau cerddorol, dathliadau Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi ac ymlaen. Nid oes neb mynd adref ar ôl cyfarfod heb gael paned a sgwrs. 'Rydym yn croesawu dysgwyr a myfyrwyr a phawb sydd yn ymfalchio yn ein treftadaeth.

Gallwch cyslltu ar yr ebost

helo@cymdeithascymrylerpwl.co.uk

Mae gwefan y Gymdeithas i'w gweld

<https://cymdeithascymrylerpwl.co.uk/>



Fy arwydd o'r Gwanwyn

Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon, bydd y gwanwyn wedi cyrraedd. Wn i ddim amdanoch, ond dw i'n falch ein bod ni wedi dweud 'hwyl fawr' wrth y gaeaf, er nad oedd yn aeaf arbennig o galed nag oer. Dan ni i gyd yn adnabod dyfodiad y gwanwyn ac ella bod gynnon ni ein hoff arwydd, sef blodeuo'r Cennin Pedr, can siriol yr adar bach, blodau llachar y coed ceirios a magnolia a blagur newydd y gwrychoedd.

Yn bersonal, gwenaf pan wela i flodau melyn bach yn ymddangos ymhlith y gwyrddlesni tyner. 'Llygad Ebrill' (*Ficaria verna*) ydy enw'r planhigyn hwn ac, fel yr awgryma'r enw, mae'n blodeua yn y gwanwyn (er fy mod i wedi'i weld mor gynnar â mis Chwefror hwyr o'r blaen). Mae'n aelod o deulu 'blodyn melyn' (*Ranunculaceae*) ac mae ganddo flodau melyn actinomorphic (siâp seren). Mae'n tyfu'n agos at y ddaear ac mae'n well ganddo fannau llaith, felly yn y gwanwyn, mae'n gyffredin mewn coedwigoedd lled-gysgodol, mewn ffosydd ac o dan wrychoedd. Mae'n darparu ffynhonnell bwysig o

neithdar cynnar gan ei fod o'n blodeuo cyn llawer o blanhigion eraill.

Er nad ydy o'n achosi problemau ym Mhrydain (er gwaetha'r ffaith ei fod o'n wenwynig), mae'n cael ei ystyried fel rhywogaeth ymledol yn America lle mae'n sefydlogi ei hun yn gynnar yn y flwyddyn gan ffurfio carpedi eang. Oherwydd hyn, mae'n cystadlu mor llwyddiannus efo planhigion eraill trwy eu hatal rhag tyfu'n fawr. Mae'r llygad Ebrill yn cynnwys glucoside o'r enw 'ranunculin'. Mae hwn yn ansefydlog ac os bydd y planhigyn yn cael ei glwyfo, mae'r ranunculin yn troi'n docsin o'r enw 'protoanemonin'. Mae'r dail yn gallu achosi brech, pothelli a chosi ar y croen. Os cymerir y dail yn fewnol, maen nhw'n gallu achosi pendro, chwydu, dolur rhydd a phyliau. Pwy sy'n dal i feddwl mai planhigyn tlws a diniwed ydy'r llygad Ebrill bellach, tybed?! Er gwaetha hyn, mae o wedi cael ei ddefnyddio i drin clwyf y marchogion yn y gorffennol. Felly, oedd yn ddefnyddiol iawn ar un adeg, er mai defnydd penodol oedd hwnnw, rhaid dweud! Mae defnydd o'r planhigyn mewn meddyginiaeth yn eitha' diogel ar ôl iddo gael ei gynhesu a sychu. Mae ei gynhesu'n troi'r tocsin yn 'anemonin' sy ddim yn wenwynig. Dwedir bod gan yr anemonin briodweddau poen leddfoll. Y broblem fwyaf sy'n cael ei hachosi gan y llygad Ebrill ym Mhrydain ydy ei fod o'n gallu tyfu rhif y gwllith ar lawntiau. Dydy'r rhai garddwyr brwd ddim yn hapus efo hyn, ond y ffordd orau (a hawsaf) i ddelio efo nhw ydy trwy dynnu'r dail yn y gwanwyn gan fod hyn yn gwanhau gallu'r planhigion i luosi. Yn bwysicach fyth, does dim angen defnyddio plaladdwyr.

Roedd y bardd enwog William Wordsworth yn hoff iawn o lygad Ebrill ac ysgrifennodd dair cerdd amdano: 'To the Small Celandine', 'To the Same Flower' a 'The Small Celandine'. Ar ôl i

Wordsworth farw yn 1850, bwriadwyd cerfio llygad Ebrill ar ei blac coffa yn yr eglwys yn Grasmere, Cumbria. Er hynny, dryswyd llygad Ebrill efo 'llysiâu'r wennol' (Chelidonium majus), sef 'greater celandine'. Er bod y ddau blanhigyn yn rhannu'r un enw, aelod o deulu pabi (Papaveraceae) ydy llysiâu'r wennol. Ysgrifennodd y bardd Edward Thomas, oedd o dras Gymreig, gerdd o'r enw 'Celandine' ac mae'r awdur DH Lawrence yn cyfeirio at y llygad Ebrill droeon yn ei nofel 'Sons and Lovers'.

Er gwaeth ei gyfansoddiad gwenwynig, mae'r blodyn tlws hwn wedi cael ei ddefnyddio'n feddyginiaethol yn ogystal ag ysbrydoli rhai o ysgrifenyddyr enwocaf Prydain. Dydy hynny ddim yn hanes drwg o gwbl i flodyn bach cyffredin. Mae'n bosib, wrth i chi ddarllen yr erthygl hon, y byddaf yn crwydro'r cefn gwlad sydd ar fy stepen drws gan chwilio am lygad Ebrill cyntaf y flwyddyn.

Martin Coleman
Clay Cross



Grŵp Sgwrs Manceinion - Ein Hanes

Wnes i ddechrau dysgu Cymraeg yn 2012, efo'r cwrs ar-lein Say Something in Welsh, sy'n gyfarwydd i lot o bobl erbyn hyn. Dw i'n cofio gweld neges ar Fforwm y cwrs am grŵp o bobl oedd yn cyfarfod misol ym Manceinion mewn bar Oxford Road - wedi anghofio'r enw rŵan. Dw i'n eithaf swil a do'n i ddim yn siŵr am ymuno â nhw o gwbl. Dw i'n cofio dweud wrth fy ngŵr ar y tro "What do you think of me going to meet a group of strange Welsh speaking men in a bar on Saturday morning?" Dwedodd o "Be careful." Roedd gwybodaeth ar y fforwm yn awgrymu bod yr aelodau i gyd yn wrywol ar y tro. Es i ddim. Wedyn tua dau neu dri mis ar ôl, o'n ni eisiau mwy o gyfleodd i siarad efo pobl wyneb yn wyneb yn y Gymraeg - dysgwyr fel fi. Felly wnes i benderfynu rhoi cyfle iddo fo. Oedd y grŵp yn gyfeillgar iawn ac o'n i'n hapus iawn bo fi wedi ymuno â nhw hyd yn oed o'n i'r unig ddydd. Ar ôl un neu ddau mwy o gyfarfodydd, doedd trefnydd y grŵp ddim yn medru mynd achos salwch a wnaeth o ddiflannu o'r fforwm hefyd. O'n i'n poeni byddai 'r grŵp yn dod i ben. Felly o'n i'n trio cadw'r diddordeb yn mynd ar y fforwm efo rhoi'r nodyn

Eisiau ymarfer dy Gymraeg?
Want to practise your Welsh?

Ymunwch â ni yn ein / *Join us in our*

Sesiwn Sgwrs

Croeso cynnes i bawb / A warm welcome to everyone

 **Pob prynhawn dydd Iau**
Every Thursday afternoon

 **2:00-3:00pm**

 **Llyfrgell Y Fflint / *Flint Library***



Cysylltwch / *Contact:* **07864 149078**

 Mwynhau'r
Gymraeg

atgoffa yno. A diolch byth oedd pobl yn parhau mynd. Wnaeth un o'r aelodau, Martin, ddechrau tudalen Facebook ac oedd y ddau ohonon ni yn rhannu cyfrifoldeb ar gyfer rhoi hwb i'r grŵp yno hefyd.

Aeth y grŵp yn dda iawn, wastad yn anffurfiol efo amrywiaeth o bobl efo angerdd am ddysgu Cymraeg. Wnaeth merched eraill ddechrau dod o'r diwedd hefyd. Wedyn un bore Sadwrn wnaeth fi a Martin gyrraedd at ddrws y bar ond oedd y bar ar gau! Do'n i ddim yn gwybod beth i wneud rhag ofn i bobl eraill gyrraedd. Felly ar ôl dipyn aethon ni yn Wetherspoons drws nesa am banad ac o'n ni'n edrych allan am aelodau eraill. Ond ddaeth neb. Wedyn wnaeth Martin a fi benderfynu awgrymu i'r grŵp bod ni'n dechrau cyfarfod rhywle arall ac erbyn diwedd 2013 o'n ni'n cyfarfod yn y caffi Oriol Celf Manceinion. Tua diwedd 2017 clywsem ni am gaffi newydd ym Manceinion...caffi Cymraeg! Daeth y perchennog, Iwan Roberts, o Ddolgellau ac oedd enw'r caffi yn *Siop Shop*. Oedd pawb yn y grŵp yn hapus i symud ein cyfarfod yno, yn enwedig pan welsem ni arbenigeddau Iwan - toesenni! Oedd Iwan yn gyfeillgar iawn ac yn hapus i siarad Cymraeg efo ni ar y cownter. Oedd 'na arwyddion a hyd yn oed ychydig o bethau ar y fwydlen yn y Gymraeg.

Wedyn daeth 2020...do, Covid! Roedd rhaid i ni orffen cyfarfod wyneb yn wyneb. Ond mor fuan â phosib wnes i drefnu'r grŵp ar lein efo Zoom. O'n i'n gweithio gartre ar y tro felly o'n i'n gyfarwydd efo defnyddio fideo ayyb i gyfarfod efo pobl. Oedd pawb yn cytuno i gyfarfod dwywaith bob mis, felly i ffwrdd â ni! Achos bod ni'n cyfarfod dros Zoom, oedd yn bosib derbyn pobl o bobman. Oedd na phobl o Gymru, Buxton ac Awstralia hyd yn oed. Un mis wnaeth afr ymuno â ni -

stori hir! Wnaethon ni drïo syniad o "dangos a dweud" am dipyn ond oedd y rhan fwyaf o bobl isio jyst siarad fel yn y caffi. Oedd yn hyfryd gweld pobl yn ystod y cyfnod clo ac i fedru siarad Cymraeg efo nhw.

Mis Medi 2021, pan oedd pethau yn dychwelyd i arferol... neu "arfer newydd" fel oedd lot o bobl yn dweud, wnaethon ni gytuno mynd yn ôl i'r caffi yn yr oriel, achos bod Siop Shop yn eithaf bach ac oedd rhai pobl yn dal i gadw pellter cymdeithasol. Ond do'n ni ddim eisiau colli cysylltiad efo pobl o bell. Felly oedd grŵp sgwrs wyneb yn wyneb ar y trydydd Sadwrn pob mis ac oedd y sesiwn Zoom yn parhau ar ddydd Sadwrn cyntaf. A dyma ni yn dal i gyfarfod yn yr oriel a dros Zoom, ac mae'r grŵp yn mynd am nerth i nerth. Ers 2012, pob grŵp sgwrs wedi bod yn wahanol efo pobl ar lefelau gwahanol efo eu Cymraeg. Mae 'na graidd bach o bobl reolaidd, wedyn mae rhai pobl yn ymuno bob hyn a hyn a rhai yn ymuno â ni unwaith wedyn byth eto! Mae'r staff yn y caffi yn hyfryd ac yn hapus i ni symud y byrddau os dyn ni angen, ac am dipyn oedd ddynes o ogledd Cymru yn gweithio yn y caffi ac oedd hi hapus i siarad efo ni. Yn ddiweddaraf mae rhif cyfartalog yr aelodau yn y caffi wedi bod tua 15 ac mae pawb yn hapus i gael sgwrs ac i rannu syniadau, llyfrau, cylchgronau ayyb. Dw i'n gobeithio bydd y grŵp yn parhau am byth! Dw i wedi gwneud lot o ffrindiau a phob mis dw i'n edrych ymlaen at weld wynebau newydd a chyfarwydd.

Jean Brandwood

Yn ddiweddaraf, dw i wedi sgwennu llyfr (yn Saesneg) "A Welsh Learner's Ramble along the Llŷn Coastal Path" sy'n dweud fy stori o ddysgu Cymraeg ac am gerdded ar hyd y llwybr arfordir Llŷn efo fy ngŵr Jim. Mae o ar gael mewn siopa llyfrau Cymraeg ac ar y we. Mis Chwefror 'ma wnes i ddechrau tudalen Facebook i rannu mwy o fy mhrofiadau fel dysgwr ac ymwelydd yn Llŷn. Croeso i chi "Friend Request" fi - "Rambling Welsh Learner in Llŷn" ydy enw fy nhudalen.

Geiriau ystyr dwbl

Mae 'na ychydig eiriau yn y Gymraeg sydd yn meddu dau ystyr heb gysylltiad pendant rhwng y ddau. Bûm yn myfyrio ychydig amdanynt wrth feddwl am rywbeth i sgrifennu i Lais y Derwent. Mae angen testun dibwrpas i drafod bob hyn a hyn rhag i fywyd fynd yn rhy gynhyrfus. Felly dyma restr fach islaw a rhai sylwadau am eiriau o'r fath. Nid wyf yn cyfrif yma geiriau sydd yn swnio r'un fath ond yn cael ei sillafu yn wahanol, na geiriau wedi'u treiglo, na hefyd geiriau tebyg iddi gilydd heblaw i hyd y llafariad fel hyn a hÿn.

Bach

Mae hyd yn oed y mwyafrif o Saeson unieithog yn gyfarwydd â'r gair bach, ansoddair am small; yr ystyr arall wrth gwrs yw rhywbeth fel hook. Felly allwch ddweud, "rwy'n hongian fy nghrys ar y bach bach".

Dafad

Rydych i gyd yn siŵr o wybod y gair dafad am sheep neu ewe ond faint sydd yn gyfarwydd â'r gair dafad am wart, sef rhyw fath o dyfiant ar y croen? Weithiau defnyddir dafaden am small wart yn lle dafad. Mae'r un lluosog - defaid - yn cael ei ddefnyddio yn y ddau ystyr.

Ysgol

Mae dau ystyr ysgol sef ladder a school yn gyfarwydd; pan oeddwn yn blentyn roeddwn yn credu fod cysylltiad yn y ddau ystyr gan fod hi'n bosib dringo o ris i ris ar ysgol a hefyd yn ffigurol mae plant yn gallu dringo o ddosbarth i ddosbarth bob blwyddyn yn yr ysgol; ond na! Pan ddysgais dipyn o Ladin yn ddiweddarach dysgais mai dau air Lladin gwahanol yw gwraidd y ddau ystyr yn Gymraeg, hynny yw scala y gair Lladin am ladder neu tier (sylwch

La Scala Milan) a schola sef y gair Lladin am school, sydd yw gweld yn scholastic a scholar hefyd; felly tarddiad gwahanol i'r ddau ystyr.

Mwyn

(1) Ansoddair yn golygu caredig, neu addfwyn neu gariadus

(2) enw (noun) am mineral, neu ore e.e. mwyn aur, mwyn plwm.

Gwaith

gwaith = work, labour.

gwaith = times, occasions e.e. rwy wedi 'sgrifennu erthygl i Lais y Derwent sawl *gwaith*.

Mae'n anodd gweld unrhyw gysylltiad rhwng y ddau ystyr felly mae'n debyg fod gwraidd gwahanol i'r ddau.

Cwch

Mae cwch, y gair am boat, siwr o fod yn gyfarwydd i ddysgwyr; ond beth am gwch am y Saesneg *hive*, hynny yw rhyw fath o adeilad pren i gadw gwenyn. Mae'r un lluosog i'r ddau ystyr sef cychod wrth gwrs.

Llai adnabyddus yw gair a ddefnyddiwyd slawer dydd i olygu rhaniad o dŷ gwair ar fferm. Felly un o unedau mewn tŷ gwair. Ffermwr oedd fy nhad ac roedd e'n defnyddio'r gair yn yr ystyr hyn.

Côr sef choir, ond i ffermwyr mae côr yn y beudy yn golygu rhywbeth fel manger, neu fath o ofod o flaen da godro yn y beudy lle dodir y gwair.

Tro

(1) times e e sawl tro

(2) turn, bend e.e. tro yn yr heol hefyd mynd am dro

(3) tro o wyau = hanner dwsin o wyau; ar lafar yn sir Geredigion a Sir Benfro; does gen i ddim amcan beth yw tarddiad yr ystyr hwn.

(4)

Corn Dyma air a sawl ystyr heb ryw

gysylltiad rhyngddynt.

Yn gyntaf = corn ar y traed, gair benthyg o'r Saesneg corn.

Yn ail gorn e e corn buwch, yn Saesneg horn.

Tost

(1) gair benthyg o'r Saesneg am toast.

(2) ansoddair yn golygu ill neu sick

Trugaredd

(1). (enw) mercy, neu compassion.

(2) yn y lluosog yn unig drugareddau. Knicknacks , bits and piecies.

Porth

Yn gyntaf gair cyffelyb a help, support, feed yn Saesneg.

Yn ail ryw fath o fynedfa; (entrance, door, port a y y b)

Dyna ddyrnaid o eiriau sydd a mwy nag un ystyr; allwch chi feddwl am ragor? Mae 'na gannoedd ond edrych yn fanwl yn y geiriaduron.

Howell Price
West Bridgford
Nottingham


TYFU
CYMRAEG
grow your welsh

www.tyfu-Cymraeg.co.uk



Pen-blwydd Hapus, Clwb Cymraeg Preston!

Mawrth 1af ydy pen-blwydd swyddogol Clwb Cymraeg Preston, ac eleni rydyn ni'n ddeg mlwydd oed.

Mae gennym ni atgofion lu o'r deg mlynedd ddiwethaf. Ymhlith y gwers misol, y ciniawau chwe-misol, y diwrnodau adolygu, yr achlysuron cymdeithasol amrywiol, y cyfraniadau i Lingo Newydd a Radio Cymru, datblygiad y Clwb Darllen, gorfod symud i ystafell fwya Llyfrgell yr Harris - a honno yn aml dan ei sang - mae dau ddigwyddiad arbennig yn fyw iawn yn y cof.



Medi 18fed, 2018.

Dyma griw eiddgar ohonon ni'n cyrraedd Rhuthun, yn edrych ymlaen at ddiwrnod allan cyffroes. Chawson ni



ddim o'n siomi. Cinio yng Nghaffi R, ymweliad gwych i Garchar Rhuthun, prynu cacenni ym Mhopty Eryr, picio mewn i'r llyfrgell, gwario arian yn Siop Elfair, treulio amser yn y Ganolfan Grefft a chwrdd â rhai o ddysgwyr lleol Clwb Caffi R cyn mynd adre. Diwrnod llawn hwyl a chyffro.

Mai 30ain, 2019. Roedd yr ymweliad â Rhuthun mor llwyddiannus penderfynon drefnu un i Ddinbych yn y flwyddyn nesa. Roedden ni'n lwcus tu hwnt i gael help amhrisiadwy gan Nerys Ann o "Popeth Cymraeg." Wnaeth hi gynllunio diwrnod bendigedig i ni.



Dechreuon yn Amgueddfa'r Pumdegau Cae Dai, aethon ymlaen i ymweld â'r llyfrgell cyn cael cinio hyfryd yn Y Siop Siocled, wedyn roedd taith dywys o gwmpas y dre, y castell a'r waliau. Roedd amser gyda ni i fynd i'r Swyddfa Bost a'r Siop lyfrau cyn cael pryd o fwyd blasus yn Nhafarn y Guildhall. Am ddiwrnod! Croeso cynnes ymhobman,

digwyddiadau difyr yn llenwi'r dydd ac atgofion bythgofiadwy.

Mawrth 2020 Rydyn ni i gyd yn gwybod be' ddigwyddodd yn 2020. Doedd na ddim taith bleser yn y flwyddyn honno. Fel digwyddodd i sawl cymdeithas, cafodd covid effaith eitha andwyol arnon. Wedi gweld nifer yr aelodau'n codi o dri i wyth i ddeuddeg.... hyd at dros dri deg yn ein hanterth, wedi gweld nifer y gweithgareddau'n cynyddu'n gyson, roedd Mawrth 2020 yn ergyd sylweddol. Erbyn hyn, mae henaint ac afiechyd yn atal rhai rhag cymryd rhan yn y clwb. Yn anffodus, mae sawl un wedi mynd a'n gadael ni am y byd nesa ac mae rhai wedi symud nôl i Gymru i fyw. Rydyn ni hyd yn oed wedi colli ein man ymgasglu achos dydy Llyfrgell yr Harris ddim wedi ail-agor yn llawn eto.

Er gwaetha hyn oll, mewn geiriau ysbrydoledig Dafydd Iwan, rydyn ni "yma o hyd" - tua deunaw ohonon ni. Roedd darganfod Zoom yn 2020 yn agoriad llygad, yn cynnig cyfleoedd doedden ni ddim wedi ystyried cyn hynny. Mae'n clwb bach ni'n dal i fynd: deirgwaith yr wythnos ar Zoom ac unwaith y mis yn nhafarn Y Continental yn Preston. Mae un grŵp Zoom ar gyfer dysgwyr mwy profiadol lle dyn ni'n trafod pynciau arbennig a'r ddau grŵp arall ar gyfer dysgwyr i gynorthwyo eu dysgu annibynnol. Llwyddon ni i ddenu tri aelod newydd toc cyn y Nadolig ac maen nhw'n cyfrannu'n wych i'n criw sefydledig. Rydyn ni'n angerddol dros yr iaith a gwastad yn barod i gael llawer o hwyl a chwerthin. Mae ein cyfarfodydd yn llesol tu hwnt i'r enaid - daliwn ati!

Anne Spooner

Clwb Cymraeg Preston

www.welshclubpreston.org

Facebook: Welsh Club Preston



Cymdeithas Cymry Nottingham

Rydym ni'n grŵp o fobl sy'n byw yn Nottingham, Swydd Nottingham. Mae Cymdeithas Cymry Nottingham yn sefydliad lle gall pobl o Gymru, a pobl o dras cymreig neu bobl sydd â diddordeb yng Nghymru a diwylliant Cymru ddod ynghyd â'r diddordeb cyffredin a'r nod o ddiogelu treftadaeth a diwylliant Cymru trwy iaith, cerddoriaeth a chân.

Sefydlwyd y Gymdeithas yng nghyfarfod o ychydig fobl lleol yng nghaffi'r Mikado yn Nottingham ar Ddydd Gŵyl Dewi ym 1904; Mr W. T. Williams oedd y Llywydd cyntaf.

Ymhen blwyddyn cyrraeddodd rhif yr aelodaeth 78. Wedi hynny parhaodd y Gymdeithas i ddatblygu. Er ei sefydliad mae'r Gymdeithas wedi cynnal cyfarfodydd a gweithgareddau yn ddi-fwlch er gwaethaf dwy ryfel byd a phandemig. Rydym yn cynnal rhaglen gyson o ddigwyddiadau; edrychwch ar dudalen y rhaglen i weld manylion rhaglen 2024.

Fel arfer cynhelir y cyfarfodydd a'r digwyddiadau, yn Saesneg rhan fwyaf, yn Church Hall, St. Andrew's with Castle Gate, Nottingham, NG1 5JT, yn dechrau am 7.30 heblaw bod rhyw wybodaeth yn wahanol.

Ar ôl pob cyfarfod mae amser i sgwrsio gyda'n gilydd yn Saesneg



neu Gymraeg; mae lluniaeth ar gael hefyd ym mhob cyfarfod; mae croeso i ddysgwyr Cymraeg ymarfer yr iaith wrth sgwrsio.

O bryd i bryd cynhelir y cyfarfodydd ar Zoom. Rhaid cael y linc oddiwrth yr ysgrifenyddes i ymuno ar Zoom. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes am fwy o wybodaeth am y gymdeithas.

Mae manylion cysylltu ar ein gwefan, <https://nottinghamwelshsociety.org.uk>



Welsh Society Hull & East Yorkshire

Ers ei sefydlu dros 70 mlynedd yn ôl, mae Cymdeithas Gymraeg Hull a Dwyrain Swydd Efrog wedi bod yn ganolbwynt i bobl â hiraeth, sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal sy'n gysylltiedig â Chymru neu â diddordeb ynddi a phethau Cymreig. Mae aelodau'r Gymdeithas yn cynrychioli sawl cefndir ac mae eu hoedran yn amrywio o'r ifanc i'r rhai nad ydynt mor ifanc!

Bu'r Gymdeithas yn segur i raddau helaeth am y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y pandemig covid ond fe wnaethom ailddechrau ein cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ym mis Medi 2022.

Mae digon o siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas i ddarparu ar gyfer unrhyw un sydd am ymarfer eu Cymraeg, er nad yw'r mwyafrif yn siarad Cymraeg. Peidiwch â digalonni os nad ydych yn Gymry - mae yna lawer o aelodau hirsefydlog a gwerthfawr sy'n Saeson, Albanwyr, Gwyddelod, ac ati.

Fel arfer cynhelir cyfarfodydd cymdeithas yn y prynhawn ar y trydydd dydd Gwener o bob mis o fis Medi i fis Mai yn Neuadd Mark Kirby yn Cottingham (HU6 4DB) gyda chynulladau ychwanegol ar adegau arbennig o'r flwyddyn. Mae'r rhain, yn bennaf, yn achlysuron cymdeithasol, er ein bod yn ceisio ehangu ein had-dysg o bryd i'w gilydd. Mae croeso bob amser i westeion, rhai nad ydynt yn aelodau ac ymwelwyr â'r ardal.

Mae'r Cinio Dydd Gŵyl Dewi blynyddol yn un o uchafbwyntiau rhaglen y Gymdeithas.

Man arall sy'n uchel yw Cyngerdd y Côr Meibion yr ydym yn ei drefnu bob ychydig flynyddoedd, gyda'r elw yn cael ei roi i elusen leol. Cododd yr un olaf ym mis Mai 2017, gyda Chôr y

Penrhyn (un o gorau meibion hynaf Cymru ym mhentref chwarelyddol Bethesda yng Ngogledd Cymru) yn Eglwys Unedig Toll Gavel yn Beverley, £1,000 er budd Age UK East Riding.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni, beth am ddod i rai o'n cyfarfodydd i weld beth yw eich barn. Mae aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf, ac wedi hynny mae'n gymedrol o £15 y flwyddyn.

Sesiwn Sgwrs Manceinion yn cwrdd yng Nghaffi Oriol Celf Manceinion, Stryd Mosley, Manceinion M2 3JL ar y trydydd Sadwrn pob mis am 10.30 y bore.

Sesiwn Sgwrs Birmingham

yn cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1BJ

Sesiwn Sgwrs Yr Amwythig

Yn cwrdd yn y Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. SY3 7NN ar y cyntaf a'r trydydd ddydd lau, pob mis, am 7.30 y nos.

Gwelir www.paned.cymru am fwy o wybodaeth am eich grŵp sgwrs Cymraeg lleol.



Llais Y Derwent

Os dych chi eisiau sgwennu erthygl i 'Lais' cysylltwch drwy ffônio 07342 497181 neu anfon neges ebost at menteriaithlloegr@mail.com